# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

## Cofnodion Cyfarfod

### 4ydd Chwefror 2026 yn Y Ganolfan, Penmynydd

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng. Dewi Gwyn (Cadeirydd), Nia Jones, Owain Evans, Janet Jones, Sonia Williams, Dyfed Jones, Gillian Morris (Clerc) | |
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU**<br>D.Idriswyn Roberts, Elin Williams, Heulwen Owen, Llinos Roberts.<br>Cynghorwyr Sirol: Robin Williams, |
| **2.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| **3** | **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 07/01/2026. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir, JJ yn cynnig, NJ yn eilio. |
| **4.** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | Hysbysfyrddau - Menter Môn yn disgwyl cadarnhad gan Gyngor Sir Ynys Môn. |
| **4.2** | Cysgodfan Bws Star - Clerc wedi cysylltu gyda CSYM ac mewn trafodaeth gyda Menter Môn ynglŷn ag ail ddylunio'r gysgodfan. |
| **4.3** | Caeau Ty'n Talwrn - Clerc wedi derbyn e-bost gan Parchedig Emlyn Williams yn datgelu nad oes angen cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar ffwrdd yr ymddiriedolwyr |
| **4.4** | Ffordd Ael Y Garnedd - Clerc yn trafod gyda CSYM. |
| **4.5** | Biniau Graeanu - Clerc i gysylltu gyda CSYM ar gyfer cael biniau yn Penmynydd a Star. |
| **5.0** | **Materion ariannol** |
| **5.1** | Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa ariannol. |
| **5.2** | Taliadau - Cymeradwyo taliadau. |
| **5.3** | Cyflwyno archwiliad 2024 -2025 - Clerc yn siomedig gyda'r archwiliad, Clerc i gysylltu gyda'r Archwilydd Mewnol (Cyngor Gwynedd) ynglŷn â pha fformat i ddefnyddio gan nad ydi Archwilio Cymru yn hapus gyda'r fformat sydd yn cael ei ddefnyddio yn bresennol. |
| **6.0** | **GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN:** |
| **6.1** | Blaenraglen gwaith Y Pwyllgor Gwaith - Adroddiad wedi ei gylchredeg. |
| **6.2** | Adolygiad Cymunedol - Clerc angen cwblhau yr adolygiad erbyn 13.03.2026 |
| **6.3** | Gorchymyn Gwyro Llwybr Troed Rhif 12 Penmynydd - Gwybodaeth wedi ei gylchredeg |
| **6.4** | Fforwm Gyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - Adroddiad wedi ei gylchredeg. |
| **7.0** | **Ceisiadau cynllunio: Dim** |
| **7.1** | Dim |
| **8.0** | **Penderfyniad Cynllunio:** |
| **8.1** | Pandy Bach, Star - Caniatáu |
| **9.0** | **Gohebiaeth Ychwanegol** |
| **9.1** | E Bwletin Un Llais Cymru – Rhifyn 16 |
| **9.2** | Pwyllgor ardal Ynys Môn |
| **9.3** | Hawlfraint Nodyn Datblygu |
| **9.4** | Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru |
| **9.5** | Dyddiadau Hyfforddiant |
| **9.6** | Pont Grog Menai - Diweddariad |
| **9.7** | Cofnodion Pwyllgor Ardal Ynys Môn |
| **10.0** | **Materion Eraill** |
| **10.1** | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth - DG am addasu y cynllun gwreiddiol. |

# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR

| | |
|---|---|
| **10.2** | Maes Parcio Bryn Ffynnon - Angen arwyddion dim parcio ger y giât gan ei fod yn fynediad argyfwng. Clerc i drefnu. |
| **11.0** | **EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** |
| **11.1** | Cyllideb Chwarterol 4 |
| **11.2** | Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd |
| **11.3** | Cwblhau ac uwchlwytho'r ddogfen "Taliadau i Aelodau" |
| **11.4** | Y Clerc i gwblhau'r Datganiad Ariannol a gyrru'r dogfennau i'r Archwilwyr Mewnol. Cyn gyrru'r dogfennau i'r Archwilwyr Allanol y Cadeirydd i arwyddo a dyddio'r Datganiad **ar ôl** y cyfarfod lle trafodwyd a derbyniwyd adroddiad yr Archwilwyr Mewnol. |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Nos Fercher 1af Mawrth, 2026 am 7:00yh |
| **Manylion cyswllt:** Gillian Morris **penmynyddcc@gmail.com** | |

**Llofnod** **Dyddiad**